

Heddiw, rydym yn falch iawn o groesawu ein siaradwr gwadd, **Christobel Hutchings** a fydd yn siarad gyda ni am **hanes Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd**. Christobel yw Cadeirydd Cyfeillion Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd. Mae hi wedi dysgu Hanes yng Nghroesyceiliog ac yna yng Ngholeg Gwent. Ers ymddeol, mae hi wedi ysgrifennu erthyglau a chyhoeddi dau lyfr ac mae'n treulio ei hamser ar bwyllgorau sy'n meithrin gwaith Amgueddfeydd ac Oriolau Celf.

Mae hyn yn gyferbyniad i gyfarfod y mis diwethaf pan ddaeth **Amy Brunnock a Karen Newman** o **Dîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu y Bwrdd Iechyd** atom fel siaradwyr gwadd. Disgrifiwyd sut mae'r tîm yn mynd allan i'r gymuned leol i ofyn barn am wasanaethau iechyd yr ardal a sut mae'n darparu llawer o wybodaeth ar sut y gall y cyhoedd gael mynediad at wasanaethau priodol. Roedd hon yn sesiwn fywiog a ysgogodd llawer o gwestiynau gan yr aelodau. Mae'r tîm yn cyfarfod â Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd bob wythnos i roi adborth. I'ch atgoffa, mae modd cyrchu **Canllaw Gofal Iechyd Gwent** ar-lein drwy:- **abuhb.nhs.wales/gwent-healthcare-guide**

Cyfarfu'r Pwyllgor yn ddiweddar i drafod cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod ac mae **ffurflen adborth** ynghlwm â'r cylchlythyr hwn. Teimlwn ei bod yn bwysig cael eich barn am y Gangen, sut y gallem wella a hefyd pa ddigwyddiadau a gweithgareddau yr hoffech chi eu cynnwys yn ein rhaglen ar gyfer eleni.

Byddwn yn cynnal ein Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y mis nesaf ac yna bydd cyfle i gael te a sgons. Rydym wedi cael cadarnhad y bydd **Angela Johnson, Swyddog Datblygu Cymru** yn mynychu ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd swyddog o'r Bwrdd Iechyd yn gallu dod hefyd. Byddwn yn cynnal raffl ar gyfer ein helusen eleni. Yn ddelfrydol bydd yr elusennau enwebedig yn rhai lleol a dylent gefnogi iechyd a lles ein cymuned. Rydym yn falch ein bod ar y trywydd cywir i gyrraedd ein nod o £500 erbyn y mis nesaf drwy eich rhoddion, cinio Nadolig, stondinau cacennau ayb. Byddwch yn cofio mai'r elusen a ddewiswyd y llynedd oedd **Ambiwlans Awyr Cymru**.

Asesiad Risg

Mae'r Brif Swyddfa yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal Asesiad Risg bob blwyddyn i benderfynu a oes unrhyw risgiau iechyd a diogelwch i aelodau. Trafodwyd hyn yng nghyfarfod y Pwyllgor ac yn ffodus i'n Cangen ni, nid ydym wedi nodi gormod o risgiau. Gallai risgiau gynnwys unrhyw waith codi trwm ond ni ddylai hyn fod yn angenrheidiol i ni.

Gallai gormod o bobl fod yn broblem felly rydym yn gofyn i aelodau sicrhau nad yw llwybrau cerdded yn cael eu rhwystro er mwyn lleihau'r risg o faglu a llithro. Un maes a nodwyd gennym oedd yr angen i gael rhif cyswllt brys ar gyfer aelodau yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n mynd ar deithiau.

Uned Gofal y Fron newydd wedi agor

Ddechrau'r mis hwn, agorodd Uned Gofal y Fron newydd sbon yn Ysbyty Ystrad Fawr ei drysau i gleifion am y tro cyntaf.

Yn dilyn buddsoddiad o £11m gan Lywodraeth Cymru, mae'r uned newydd wedi dod â thimau clinigol o Nevill Hall ac Ysbytai Brenhinol Gwent at ei gilydd i ddarparu gwasanaeth gwell, mwy gwydn a mwy effeithiol i fodloni anghenion poblogaeth Gwent yn well.

Mae ymdrechion anhygoel cymunedau lleol i godi arian wedi sicrhau mwy na £260,000 mewn cyllid ychwanegol i sicrhau bod yr uned yn teimlo'n llai clinigol ac yn fwy cartrefol. Mae'r arian a godwyd wedi caniatáu'r timau i brynu addurniadau i wella amgylchedd yr uned, gan gynnwys gwaith celf, dodrefn a goleuadau nodwedd.

Am ragor o wybodaeth: <https://bit.ly/3OB4w7d>

Hope 4U

Roeddem yn meddwl y byddai'n werth sôn am yr elusen hon rhag ofn bod gennych chi ffrindiau neu aelodau o'r teulu a allai elwa o'r cynllun. Mae'r elusen yn rhoi cyngor a chymorth ariannol yn ystod beichiogrwydd ac i rieni newydd. Yn ddiweddar, roedd Hope 4U yn falch iawn o gael ei ariannu gan y Grid Cenedlaethol i ddarparu cymorth mawr ei angen i ddarpar rieni a rhieni newydd yn nalgylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Wrth i gyllidebau gael eu hymestyn ymhellach, mae mwy o unigolion yn ei chael hi'n anodd cadw'n gynnes, prynu bwyd a thalu eu biliau.

Rhoddodd National Grid 'Becynnau Cynnes' i'w dosbarthu i bobl yn yr ysbyty sy'n agored i niwed ac yn wynebu trafferthion. Roedd y pecynnau'n cynnwys hanfodion fel het, menig, fflasg, sanau, tortsh weindio a llenyddiaeth bwysig yn egluro'n glir beth i'w wneud mewn argyfwng a'r Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth.

Bydd y gwasanaeth yn parhau i gefnogi darpar rieni a rhieni newydd, gan weithio ochr yn ochr â staff y GIG sy'n hynod gefnogol i'r gwasanaeth. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yw'r ysbyty cyntaf yng Nghymru i gefnogi'r fenter bwysig iawn hon. Ceir rhagor o wybodaeth yn :-www.hope4u.co.uk

DIWEDDARIAD TEITHIAU CHWEFROR 2024

SIOEAU MATINEE - TOCYNNAU THEATR - YN BAROD I'W CASGLU HEDDIW.

GÊM DARTIAU GYDA GRWPIAU RHONDDA A MERTHYR

RYDYM YN AIL-GYFLWYNO'R GÊM DARTIAU DDYDD MERCHER, 22 MAI. Y LLEOLIAD YW'R GANOLFAN BOWLIO DAN DO A'R GANOLFAN CHWARAEON YN Y GLEBELANDS, CASNEWYDD. TREFNIR BWFFE A BYDD BAR AR GAEL. PRIS TUA £9-£10 y PEN. MAE DIGON O LE I BARCIO.

2pm, Dydd Llun, 15 Ebrill 2024 - Sarah Robinson o Hope GB, sef grŵp cymorth gwirfoddol sy'n rhoi cymorth ymarferol ac anogaeth i bobl y mae awtistiaeth yn effeithio arnynt, yn Nhorfaen a thu hwnt. **Bydd gennym stondin gacennau yn ein cyfarfod fis Ebrill**

Eich Pwyllgor

Cadeirydd	Lynda Evans	Trefnwyr y Raffl	Jen Martin
Is-gadeirydd	<i>Swydd wag</i>	Cyfarchwyr	Cynthia Matthews
Ysgrifennydd	<i>Swydd wag</i>		Lilwyn Griffiths
Trysorydd	Denise Coldrick		Carol Cunnell
Trysorydd Cynorthwyol	Lilwyn Griffiths		Megan Williams
Ysgrifennydd Siaradwyr	Joanne Butler		Barbara Davies
Ysgrifennydd Aelodaeth	Ann Hyde		
Llyfrau a gwerthiant	Pam E Jones		
Teithiau a thripiâu	Delyn Hunt		
Swyddogion Lles	Caroline Pitt a Megan Williams		

Gwybodaeth Gyswllt

Cadeirydd	Lynda Evans	01633 420668	lyndaevs@hotmail.co.uk
Ysgrifennydd			
Swyddogion Lles	Caroline Pitt Megan Williams	01633 660608 01633 420932	
Teithiau a thripiâu	Delyn Hunt	01633 843140	delyn46@yahoo.co.uk

Cronfa Les Cymdeithas Ymddeol y GIG Sherry Smith, Swyddog Gweinyddol, Y Swyddfa Ganolog. Ffôn 01305 361317, www.nhsrf.org.uk

CYMDEITHAS YMDDEOL Y GIG - CANGEN GWENT

FFURFLEN ADBORTH

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i dderbyn adborth gan aelodau ynglŷn â'u profiadau o'n Cangen leol. Mae eich barn yn werthfawr er mwyn i ni allu gwneud gwelliannau a hefyd i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer teithiau, gweithgareddau a siaradwyr sydd o ddiddordeb i chi. A fydddech cystal â threulio ychydig funudau i gwblhau'r holiadur hwn a dychwelyd y ffurflen i'r blwch awgrymiadau sydd ar gael heddiw ac yn y cyfarfod nesaf?

Ydych chi'n mwynhau cyfarfodydd y Gangen? Os ydych, beth sy'n dda amdanyn nhw?

Pa agweddau sydd ddim cystal?

Pa newidiadau/gwelliannau allwn ni eu gwneud?

A oes croeso i chi yn y cyfarfodydd?

Ydych chi'n mwynhau'r teithiau a gweithgareddau a drefnir gan y Gangen?

A oes unrhyw deithiau a gweithgareddau yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys?

Unrhyw sylwadau eraill?

